**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

18 Ionawr 2024

Annwyl Mark,

Cytundeb o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol mewn Ardaloedd y Tu Hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 4 Rhagfyr 2023, buom yn ystyried y Cytundeb o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol mewn Ardaloedd y Tu Hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol ("cytundeb BBNJ"). Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cadwraeth a defnydd cynaliadwy o amrywiaeth fiolegol forol ardaloedd y tu hwnt i awdurdodaeth genedlaethol, drwy weithredu darpariaethau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr a chydweithrediad rhyngwladol effeithiol.

Fel y gwyddoch, er bod materion tramor a chysylltiadau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl, nid yw dilyn a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig yn fater a gedwir yn ôl. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad, mae'r Cytundeb hefyd yn ymwneud â physgodfeydd, polisi morol a pholisi amgylcheddol, sy'n faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar yr ymgysylltu rhynglywodraethol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cytundeb, gan gynnwys rhoi diweddariadau ac ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar ddatblygiad y cytundeb.

Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddarparu:

- eich barn ynghylch y broses o roi diweddariad ac ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar ddatblygiad y cytundeb;

- diweddariad ar ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu'r cytundeb; a

- gwybodaeth am unrhyw waith rhynglywodraethol sy'n digwydd, neu sydd ar y gweill, i weithredu'r cytundeb, yn ogystal â chadarnhau pa strwythurau rhynglywodraethol presennol sy'n cael eu defnyddio.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies